

Cymdeithas y Gerddi, Dolwyddelan

Rhif 77
Y SIOE FLYNYDDOL

i'w chynnal yn
YSGOL GYNRADD DOLWYDDELAN
SADWRN, MEDI'R 7fed am 2.30 o'r gloch

i'w hagor yn swyddogol gan
TAMZYN LAWRENCE, Betws-y-Coed (Bod Eifion)

Rhaglen a Mynediad : £1



TREIALON CŴN DEFAID DOLWYDDELAN


Dydd Gwener Medi'r 20fed yn 4.00 – Lleol

Dydd Sadwrn Medi'r 21ain o 9.00 - Agor Dosbarth 1af a 2il



SGIP YR HYDREF AR GYFER TRIGOLION Y PENTREF Dydd Iau, Medi'r 12fed

Cadwch lygaid am bosteri yn nes
at yr amser i weld yn union
amseroedd.



Nid yr awdurdod lleol sy'n
ariannu'r sgipiau cymunedol, ond
Cyngor Cymuned Dolwyddelan a
Menter Siabod bob yn ail.

Mae'r cyfleuster ar gyfer unrhyw
un o Bont-y-Pant i'r Bont Rufeinig
ond gan eu bod yn llenwi'n
andros o sydyn, gofynnwn yn
garedig ichi ddod a dim ond un
car llawn o ysbwriel yn unig.

Llongyfarchiadau mawr i Kirsty
am godi dros £200 tuag at
Y Gymdeithas Alzheimer
mewn digwyddiad
cacenni bach yn
ddiweddar.



Llongyfarchiadau i Carrie a Mike, Plas Penaeddroch

Wedi tair blynedd o waith caled,
mae ganddyn nhw erbyn hyn dair
cyfres o ystafelloedd yn barod i'w
cynnig fel llety.

Mae caffi Plas Penaeddroch ar
agor pob dydd a bydd prydau
gyda'r nos ar gael yn fuan.